**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 4 Hydref 2012 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2011/12, a'i fabwysiadu. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r adroddiad |

## 1.0 CEFNDIR

1.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym wedi bod yn cyfarch hyn drwy gyhoeddi'r Cynllun Tair Blynedd (2011-14), fodd bynnag, gyda dyfodiad y Cyngor newydd fis Mai 2012, penderfynwyd y byddai'r Cynllun Strategol yn cymryd lle'r Cynllun Tair Blynedd. Rydym yn cyfarch y gofyn i fod yn atebol amdano drwy ein hadroddiad blynyddol ar berfformiad. Cyflwynir Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12 yma.

1.2 Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).

Cam 2 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi asesiad o berfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12).

1.3 Gofynnir i awdurdodau gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ganlynol.

1.4 Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor.

## 2.0 Y CYNNWYS

2.1 Mae'r adroddiad yn darparu manylion am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella, a holl welliannau a dangosyddion blwyddyn gyntaf Cynllun Tair Blynedd 2011-14 (rhagflaenydd y Cynllun Strategol). Mae'r adroddiad felly yn cwmpasu perfformiad 2011/12.

2.2 Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi perfformiad y Cyngor yn erbyn ymrwymiadau'r Cyngor mewn ffurf naratif drwy gynnig y cefndir i'r perfformiad, 'Y Stori tu ôl i'r Perfformiad' yn ystod 2011/12. Gwneir hyn ar gyfer y canlyniadau a oedd yn y Cynllun Tair Blynedd. Rhain yw 'amcanion gwella' y Cyngor, y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.2 uchod.

2.3 Yn ychwanegol, ceir asesiad manwl fesul gwelliant, gan gynnwys esboniad o'r camau gweithredu lle bu llithriadau ar ddiwedd 2011/12. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn atebol am ei berfformiad, ac yn cyhoeddi asesiad cytbwys o'r cyrhaeddiad, penderfynwyd asesu'r cynnydd yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

**Gwyrdd –** Gwelliannau sydd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn/Dangosyddion sydd wedi cwrdd â targed cronnus y flwyddyn.

**Ambr –** Gwelliannau sydd wedi cwrdd â neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn/Perfformiad y dangosyddion o fewn y goddefiant.

**Coch –** Gwelliannau nad oedd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn erbyn diwedd Ebrill 2012/Dangosyddion nad ydynt wedi cwrdd â targed cronnus y flwyddyn.

2.4 Yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol ar Gyngor Gwynedd (Chwefror 2012), cynigodd Swyddfa Archwilio Cymru y dylai'r Cyngor gynnwys dadansoddiad mwy cytbwys yn ei grynodeb o'i hunanasesiad.

2.5 Cafodd yr adroddiad sylw yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2012.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyngor:

a) Gymeradwyo'r ddogfen yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei welliannau a dangosyddion yn ystod 2011/12, a'i fabwysiadu.

b) Awdurdodi'r Pennaeth Strategol a Gwella i wneud unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau golygyddol angenrheidiol i sicrhau cywirdeb cyn cyhoeddi'r adroddiad.